Y nifer o oedolion sy'n cael gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ac sydd wedi cael disgrifiad erbyn 31 Mawrth o beth yw eu hanghenion o ran y gwasanaethau hynny a sut y caiff yr anghenion hynny eu bodloni; wedi'i rannu â chyfanswm y bobl sy'n derbyn gwasanaeth.

Dylai fod un ganran ar gyfer y dangosydd hwn.

BVPI 59

Asesiadau am bob pen o'r boblogaeth

Nifer yr asesiadau o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n 65 oed neu drosodd am bob pen o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd.

Ystyr y rhifiadur yw'r nifer cyfan o gleientau 65 oed a throsodd ag asesiadau wedi'u cwblhau a'r cleientau hynny y mae eu hasesiadau wedi'u terfynu.

Ystyr yr enwadur yw'r boblogaeth 65 oed a throsodd (mewn miloedd).

Y celloedd perthnasol o Ffurflen AS2.

Y ganran o'r bobl a arolygwyd ac a ddywedodd eu bod wedi teimlo bod ddywedodd bod materion yngln materion yngln â hil, iaith, diwylliant neu grefydd wedi'u cymryd i ystyriaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol wrth roi'r cymorth yr oedd arnynt ei angen.

Ceir hyn o'r arolygon boddhad defnyddwyr sydd i'w cynnal gan yr awdurdod lleol.

BVPI 60

Y defnyddwyr / gofalwyr a ddywedodd bod materion yngln â hil, iaith, diwylliant neu grefydd wedi'u nodi.

Gwariant gros ar blant sydd mewn angen ond nad ydynt yn derbyn gofal, fel canran o wariant gros ar bob gwasanaeth plant.

Ystyr yr enwadur yw'r gwariant gros ar bob gwasanaeth plant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, fel y'i cofnodwyd ar ffuflen Alldro Refeniw 3 (RO3).

Ystyr y rhifiadur yw'r rhan honno o'r enwadur sy'n wariant ar blant mewn angen ond nad ydynt yn derbyn gofal. Cyfrifir hyn fel swm yr eitemau canlynol ar y ffurflen RO3: cyflawnder ieuenciad, darparu i blant dan wyth mlwydd oed, canolfannau teuluol, lwfansau mabwysiadu, gofal cartref/ cymorth cartref di-breswyl arall a 50% o wariant ar ymadael â gofal cartref. Mae'n cynnwys cyfran hefyd o'r gwariant ar uwch-reolwyr, rheoli gofal/ gwaith cymdeithasol a chostau cyffredinol.

Diffinir gwariant gros o'r ffurflen RO3 fel swm costau cyflogedigion (colofn 1) a chostau rhedeg gan gynnwys cyd-drefniadau (colofn 2) llai incwm arall gan gynnwys cyd-drefniadau (colofn 5).

Erthygl 3

ATODLEN 4

DANGOSYDDION TAI

Rhif y Dangosydd **Disgrifiad y dangosydd**

Manylion y dangosydd

Y gyfran o anheddau anffit yn y sector preifat a wnaed yn ffit neu a ddymchwelwyd o ganlyniad uniongyrchol i gamau gan yr awdurdod wedi'i fynegi fel cyfran o gyfanswm anheddau'r sector preifat y barnwyd eu bod yn anffit gan yr awdurdod. Dylai awdurdod gynnwys unrhyw annedd a dynnwyd o nifer yr anheddau anffit yn dilyn camau uniongyrchol gan yr awdurdod drwy'r canlynol:

- Rhoi grantiau.
- Rhoi benthyciadau ac indemniadau benthyca.
- Camau i hybu gwaith cynnal-a-chadw da; darparu gwasanaethau trwsio; rhoi cyngor.
- Dymchwel a chlirio.
- Cynlluniau trwsio grp.
- Gorfodi: hysbysiadau yn galw am drwsio, gohirio gweithredu neu gau.
- Noddi Asiantaeth Gwella Cartrefi sy'n rhoi cyngor a gwasanaethau trwsio.

Cynghorir awdurdodau i gynnal arolygon o gyflwr y stoc lleol bob pum mlynedd, gan gynnwys pob deiliadaeth. Dylid defnyddio hyn i amcangyfrif y nifer a'r gyfran o anheddau'r sector preifat y bernir eu bod yn anffit. Bydd y *dangosydd* wedyn yn mesur nifer cyfartalog anheddau'r sector preifat a wnaed yn ffit bob blwyddyn ers gwneud yr asesiad.

Dosbarthiad cyfartalog yr anheddau ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol yn ôl y *Weithdrefn Asesu Safonol* (SAP). Y newid blynnyddol cyfartalog yn nosbarthiad SAP cyfartalog yr anheddau ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol, a'r SAP yw mynegrif o gost flynyddol gwresogi annedd i sicrhau trefn wresogi safonol ac fe'i disgrifir fel rheol fel un sy'n rhedeg o 1 (aneffeithlon iawn) i 100 (effeithlon iawn). Fel y cyfryw, mae'n fesur o'i effeithlonrwydd ynni cyffredinol ac mae'n dibynnu ar y gwres sy'n cael ei golli o'r annedd ac ar berfformiad y system wresogi.

Mae'r *dangosyddion* yn ei gwneud yn ofynnol i arolwg ynni gael ei gynnal er mwyn penu'r waelodlin. Dylid cynnal arolygon o leiaf bob pum mlynedd. Mewn blynnyddoedd pan na chynhelir arolwg ynni dylai'r awdurdodau lleol ddiweddarau'r wybodaeth a geir o'r arolwg i gymryd i ystyriaeth y gwaith a wnaed i'r stoc dros y cyfnod.

Effeithlonrwydd Ynni - dosbarthiad SAP cyfartalog anheddau ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol

Y nifer o anheddau'r sector preifat sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis ar 1 Ebrill 2000 ac a ddychwelwyd i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn ariannol o ganlyniad uniongyrchol i weithredoedd gan yr awdurdod, wedi'i rannu â nifer holl eiddo'r sector preifat sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol wedi'i luosi â 100. Dylai awdurdod gynnwys unrhyw annedd sy'n cael ei feddiannu yn sgil gweithredoedd uniongyrchol yr awdurdod drwy'r canlynol:

- grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall a ddarparwyd neu a hwyluswyd gan yr awdurdod.
- cyngor i'r perchennog i gynnwys un neu ragor o'r canlynol:

Y gyfran o anheddau'r sector preifat sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis ar 1 Ebrill 2000 ac a ddychwelwyd i feddiannaeth yn ystod 2000/01 o ganlyniad uniongyrchol i gamau gan yr awdurdod lleol.

" taflenni a ddarparwyd ar strategaeth cartrefi gwag yr awdurdod
 " cyngor ar osod, gan gynnwys gofynion cyfreithiol a gofynion budd-dâl tai
 " cyngor ar grantiau a chymorth ariannol arall, gan gynnwys y consesiynau treth sydd ar gael
 " manylion am fforwm y landlordiaid neu'r cynllun achredu
 " cyngor ar drwsio, gan gynnwys manylion am gontactwyr adeiladu sy'n cyrraedd isafbwyt y safonau
 · cyfeiriad at bartner sy'n *landlord cymdeithasol cofrestredig*
 neu'n gyfryngwr arall ag arbenigedd perthnasol
 · camau gorfodi, gan gynnwys hysbysiadau sy'n galw am drwsio neu
orchmynion prynu gorfodol.
 · ymholiadau a wnaed i ddarganfod pwy sy'n berchen ar yr eiddo.

| | | |
|----------|---|---|
| BVPI 65a | Costau wythnosol cyfartalog rheoli fesul annedd awdurdod lleol | Mae hyn yn cynnwys y gost ariannol o reoli tai i'r awdurdod lleol - wedi ei fesur drwy wariant gwirioneddol o'r Cyfrif Refeniw Tai HRA ar reoli yn 2000/01 wedi'i rannu â nifer cyfartalog yr anheddu yn yr HRA ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, wedi'i rannu â 52. Dylai'r wybodaeth gyd-fynd â'r wybodaeth yn Ffurflen Flynyddol HRAS 99-02 ar gyfer costau cyffredinol a chostau rheoli arbennig (celloedd 3000 a 3010). |
| BVPI 65b | Costau wythnosol cyfartalog trwsio fesul annedd awdurdod lleol | Mae hyn yn cynnwys costau trwsio i'r awdurdod lleol - wedi'u mesur drwy wariant gwirioneddol o'r Cyfrif Refeniw Tai ar drwsio yn 2000/01 wedi'i rannu â nifer cyfartalog yr anheddu yn yr HRA ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, wedi'i rannu â 52. Dylai'r wybodaeth gyd-fynd â'r wybodaeth yr adroddwyd amdani drwy'r Cyfrifon Trwsio Tai yn Ffurflen Flynyddol HRAS 99-02 (cell 3020). |
| BVPI 66a | Gwaith casglu rhenti'r awdurdod lleol ac ôl-ddyledion yr awdurdod lleol: y gyfran o'r rhent a gasglwyd | Y gyfran o'r rhent a gasglwyd – Cyfrifir y gyfran o'r rhent a gasglwyd o'r data ar y rhent HRA gros a gasglwyd yn ystod y flwyddyn (h.y. gan gynnwys rhenti a dalwyd drwy Fudd-dâl Tai) fel cyfran o gyfanswm y rhent HRA sydd ar gael i'w gaslgu yn y flwyddyn ond heb gynnwys yr ôl-ddyledion rhent o gyn-denantiaid a gronwyd cyn diwedd y flwyddyn (h.y. yr incwm rhent posibl diweddgaraf ar ôl caniatáu ar gyfer anheddu gwag a chan gynnwys ôl-ddyledion tenantiaid presennol a oedd heb eu talu ar ddechrau'r flwyddyn). Cyfanswm y rhent a gasglwyd yn ystod y flwyddyn yw'r rhent a gasglwyd, llai unrhyw daliadau o ôl-ddyledion ar gyfer y blynyddoedd cynt oddi wrth gyn-denantiaid. |

BVPI 66b

Gwaith casglu rhenti'r awdurdod lleol ac ôl-ddyledion: ôl-ddyledion rhent y tenantiaid presennol fel cyfran o'r rôl renti'r awdurdod

Ôl-ddyledion rhent tenantiaid presennol fel cyfran o incwm rhent yr awdurdod - Cyfrifir ôl-ddyledion fel cyfran o'r rhôl renti o gyfanswm rhent HRA tenantiaid sydd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r rhôl renti HRA gyfan. Cyfanswm y rhent y mae'n bosibl ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer pob annedd ym mherchenogaeth yr awdurdod, p'un a ydynt wedi'u meddiannu neu beidio yw'r rhôl renti. Swm ôl-ddyledion y cyn-denantiaid a'r tenantiaid presennol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent.

BVPI 66c

Gwaith casglu rhenti'r awdurdod lleol ac ôl-ddyledion: rhent a ddilewyd fel rhent nad oes modd ei gasglu fel cyfran o'r rôl renti'r awdurdod

Rhent a ddilewyd fel rhent nad oes modd ei gasglu fel cyfran o incwm rhent yr awdurdod - Cyfrifir dileadau fel cyfran o'r rhôl renti o gyfanswm y rhent HRA a ddilewyd yn ystod y flwyddyn ariannol a'r rhôl renti HRA gyfan. Cyfanswm y rhent y mae'n bosibl ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer pob annedd ym mherchenogaeth yr awdurdod, p'un a ydynt wedi'u meddiannu neu beidio, yw'r rhôl rhenti. Swm ôl-ddyledion rhent y tenantiaid presennol a'r cyn-denantiaid a ddilewyd yn ffurfiol fel rhai nad oedd modd eu hadennill yn ystod y flwyddyn ariannol yw cyfanswm y dileadau.

BVPI 67

Y gyfran o geisiadau digartrefedd y mae'r awdurdod yn gwneud penderfyniad arnynt ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd o fewn 33 diwrnod gwaith,

Y nifer o geisiadau digartrefedd (o dan adran 184 o Ddeddf Tai 1996, p.52) y gwnaed penderfyniad amdanyst ac yr anfonwyd hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd o fewn 33 diwrnod gwaith, fel cyfran o'r holl geisiadau digartrefedd lle'r anfonwyd hysbysiad a.184.

BVPI 68

Cyfartaledd amserau ailosod ar gyfer anheddu'r awdurdod lleol a osodwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol

Cyfrifir y dangosydd hwn o ddata ar gyfanswm y gosodiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn (ac eithrio'r rhai a osodwyd ar ôl atgyweiriadau pwysig. Diffinir gwaith atgywirio pwysig fel rhai sy'n costio £5,000 neu fwy) a chyfanswm y diwrnodau pan oedd yr anheddu hyn yn wag. Mae cyfanswm y gosodiadau yn cynnwys pob gosodiad a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol lle na wnaed unrhyw waith trwsio pwysig wedi'i ariannu o raglen gyfalaf yr awdurdod yn y cyfnod pan oedd yr annedd yn wag. Diwrnodau y mae annedd yn wag = y dyddiau calendr rhwng y dyddiad y mae'r annedd ar gael i'w osod, neu pan ddarganfyddir bod yr annedd yn wag, a phan fydd tenant newydd yn symud i mewn.

Y ganran o'r rhenti a gollwyd wrth i anheddu'r awdurdod lleol ddod yn wag

Cyfrifir y dangosydd hwn o ddata ar y rhôl renti HRA gyfan a swm y rhent HRA a gollwyd drwy wagleodd (sef eiddo sy'n wag). Cyfanswm y rhent y mae'n bosibl ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer pob annedd ym mherchenogaeth yr awdurdod yw'r rhôl renti. Cyfanswm y rhent nad oedd modd ei gasglu yn ystod y flwyddyn ariannol am fod anheddu'n wag (h.y. heb denant a oedd yn atebol am y rhent) yw'r rhent a gollwyd drwy wagleoedd.

Effeithlonrwydd ynni - y newid blynnyddol cyfartalog yn nosbarthiad SAP cyfartalog anheddu ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol

Dosbarthiad cyfartalog yr anheddu ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol yn ôl y *Weithdrefn Asesu Safonol* (SAP). Y newid blynnyddol cyfartalog yn nosbarthiad SAP cyfartalog yr anheddu ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol, a'r SAP yw mynegrif o gost flynyddol gwresogi annedd i sicrhau trefn wresogi safonol ac fe'i disgrifir fel rheol fel mynegrif sy'n rhedeg o 1 (anneffeithlon iawn) i 100 (effeithlon iawn). Fel y cyfryw, mae'n fesur o'i effeithlonrwydd ynni cyffredinol ac mae'n dibynnu ar y gwres sy'n cael ei golli o'r annedd ac ar berformiad y system wresogi.

BVPI 69

Mae'r *dangosyddion* yn ei gwneud yn ofynnol i arolwg ynni gael ei gynnal er mwyn pennu'r waelodlin. Dylid cynnal arolygon o leiaf bob pum mlynedd. Mewn blynnyddoedd pan na chynhelir arolwg ynni, dylai'r awdurdodau lleol ddiweddarau'r wybodaeth a geir o'r arolwg i gymryd i ystyriaeth y gwaith a wnaed i'r stoc dros y cyfnod.

BVPI 70

Y nifer o anheddau'r awdurdod lleol y mae gwaith adnewyddu yn cael ei wneud iddynt yn ystod 2000/01 fel canran o'r nifer y mae angen gwaith adnewyddu arnynt ar 1 Ebrill 2000

a) Nifer yr anheddau ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol y mae gwaith adnewyddu (o dan £5,000) yn cael ei wneud iddynt yn ystod *y flwyddyn ariannol wedi'i rannu* ag asesiad yr awdurdod lleol o'r nifer o anheddau sydd iddynt yn ystod 2000/01 fel angen gwaith o'r fath *ar ddechrau'r flwyddyn ariannol wedi'i luosi â 100.*

b) Nifer yr anheddau ym mherchenogaeth yr awdurdod lleol y mae gwaith adnewyddu (dros £5,000) yn cael ei wneud iddynt yn ystod *y flwyddyn ariannol wedi'i rannu* ag asesiad yr awdurdod lleol o'r nifer o anheddau sydd angen gwaith o'r fath *ar ddechrau'r flwyddyn ariannol wedi'i luosi â 100.*

Y ganran o atgyweiriadau brys a gwblhawyd o fewn terfynau amser y Llywodraetha

Cynghorir yr awdurdodau i gynnal arolygon o gyflwr y stoc leol bob pum mlynedd, gan gynnwys pob deiliadaeth. Dylai'r awdurdodau defnyddio'r rhain i amcangyfrif y gwaith y bydd ei angen ar 1 Ebrill 2000.

Cyfanswm yr atgyweiriadau brys (fel y'i diffiniwyd yn Rheoliadau Tenantiaid Diogel Awdurdodau Tai Lleol (Hawl i Drwsio) 1994 (O.S. 1994/133), ond p'un ofynnwyd am yr atgyweiriadau yn unol â'r Rheoliadau neu beidio) a gwblhawyd o fewn y terfyn amser rhagnodedig yn ystod y flwyddyn ariannol wedi'i rannu â nifer y atgyweiriadau brys y gofynnwyd amdanynt yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r atgyweiriadau a ddosberthir fel rhai brys a therfyniadau amser y Llywodraeth ar eu cyfer wedi'u nodi yn y tabl isod a gymerwyd o Reoliadau Tenantiaid Diogel Awdurdodau Tai Lleol (Hawl i Drwsio) 1994.

Dylid anwybyddu'r weithdrefn statudol ar gyfer penodi ail gcontractiwr at ddibenion cofnodi'r atgyweiriad fel un anghyflawn o fewn yr amserlenni. Diffyg Cyfnod rhagnodedig (mewn diwrnodau gwaith)

Colli per trydanol yn gyfan gwbl 1

Colli per trydanol yn rhannol 3

Soced per neu oleuo, ffitiad trydanol annio gel 1

Colli cyflenwad dr yn gyfan gwbl 1

Colli cyflenwad dr yn rhannol 3

Colli cyflenwad nwy yn gyfan gwbl neu'n rhannol 1

Ffliw agored i dâñ neu fwylter wedi'i blocio 1

Colli system wresogi lle neu ddr yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhwng 31 Hydref ac 1 Mai 1

Colli system wresogi lle neu ddr yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhwng 30 Ebrill ac 1 Tachwedd 3

Traen fudreddi, llwybr carthion neu (tra nad oes unrhyw doiled arall yn gweithio yn yr annedd) fowlen toiled sydd wedi'i blocio neu'n gollwng 1

Toiled heb ddwrlif (lle nad oes unrhyw doiled arall yn gweithio yn yr annedd) 1

Sinc, bath neu fasn wedi'i flocio 3

Tap na ellir ei droi 3

Piben ddr neu biben wresogi, tanc neu seston yn gollwng

1

To'n gollwng 7

Ffenestr, drws neu glo allanol anniogel 1

Canllaw rhydd neu ddatgysylltiedig 3

Llawr pren neu ris wedi pydru 3

Ffôn mynediad y drws ddim yn gweithio 7

Ffan echdynnu mecaniddol mewn cegin neu ystafell ymolchi fewnol ddim yn gweithio 7

Yr amser cyfartalog a
gymerir i gwblhau
atgyweiriadau ymatebol nad
ydynt yn rhai brys

Ar gyfer yr atgyweiriadau ymatebol nad oeddent yn rhai brys ac a gwblhawyd
yn ystod y flwyddyn ariannol, nifer cyfartalog y dyddiau (calendr) rhwng gofyn
am yr atgyweiriad ymatebol nad oedd yn un brys a'i gwblhau'n fodhaol (a'r
atgyweiriadau nad ydynt yn rhai brys yw'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y
rheoliadau Hawl i Drwsio).

BVPI 73
Bodhad tenantiaid tai
cyngor ar y gwasanaeth
cyffredinol a ddarparwyd gan
eu landlord

Y ganran o holl denantiaid y cyngor neu hapsaml cynrychioliadol o
denantiaid cyngor, a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth
cyffredinol a ddarparwyd gan eu landlord. Ni chynhwysir les-ddeiliaid a
thenantiaid landlordiaid cymdeithasol neu breifat eraill. Dylid cynnal yr arolwg
o leiaf bob tair blynedd, gan ddechrau yn 2000/01. Rhoddir cyngor pellach ar
y dull arolygu mwyaf priodol. Yn y blynnyddoedd pan na fydd unrhyw arolwg,
adroddir canlyniadau'r flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael gyda nodyn yn
tanlinellu dyddiad yr arolwg.

BVPI 74
Bodhad tenantiaid tai
cyngor â'r cyfleoedd a
ddarparwyd gan eu landlord
ar gyfer cymryd rhan yng
ngwaith rheoli a gwneud
penderfyniadau yngln â'r
gwasanaethau tai.

Y ganran o holl denantiaid y cyngor neu hapsaml cynrychioliadol o
denantiaid cyngor, a ddywedodd eu bod yn fodlon ar y cyfleoedd a
ddarparwyd gan eu landlord ar gyfer cymryd rhan yng ngwaith rheoli a
gwneud penderfyniadau yngln â'r gwasanaethau tai. Ni chynhwysir les-
ddeiliaid a thenantiaid landlordiaid cymdeithasol neu breifat eraill.

Cynhelir yr arolwg o leiaf bob tair blynedd, gan ddechrau yn 2000/01.

Erthygl 3

ATODLEN 5

DANGOSYDDION AMGYLCHEDDOL

Rhif y dangosydd Disgrifiad y dangosydd

Manylion y dangosydd

A yw'r awdurdod lleol wedi cwblhau adolygiad ac asesiad llawn o ansawdd aer ei ardal, gan gynnwys ymgynghori â'r ymgynghoreion statudol er mwyn penderfynu a oes rhaid dynodi ardal rheoli ansawdd aer neu beidio?

Mae Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol adolygu ac asesu ansawdd aer ei ardal. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn ei bod yn annhebygol y bodlonir un neu ragor o'r amcanion ansawdd aer, fel y'u rhagnodir yn y rheoliadau, o fewn y cyfnod perthnasol, rhaid iddo ddatgan ardal rheoli ansawdd aer. Wedyn, rhaid iddo lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion gan gynnwys amserlen ar gyfer eu gweithredu. Mae adran 84(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau gynnal asesiad pellach o ansawdd yr aer ar hyn o bryd a'r ansawdd debygol yn y dyfodol mewn ardal rheoli ansawdd aer ddynodedig.

BVPI 82a Cyfanswm y gwastraff cartrefi sy'n codi mewn tunelli - canran wedi'i ailgylchu

Er nad oedd dyddiad cau statudol, y disgwyl oedd y byddai awdurdodau lleol Cymru wedi cwblhau eu hadolygiad a'u hasesiad cychwynnol erbyn Rhagfyr 1999. Yr ydys wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori â hwy i ganfod faint sydd wedi bodloni'r dyddiad hwnnw. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, fe ellid ystyried ymestyn y dyddiad cau i Fefefin 2000, fel a wnaed yn Lloegr. Disgwylir i'r awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad drafft terfynol ar yr adolygiad a'r asesiad a ddylai nodi a ydynt yn bwriadu dynodi ardal rheoli ansawdd aer neu beidio. O dan Ddeddf 1995, mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol anfon yr adolygiad drafft i nifer o gyrrf gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion ymgynghori. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau wrth gefn i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol cymryd camau os ydynt yn methu â gwneud digon o gynnydd.

Ystyr "wedi'i ailgylchu" yw deunyddiau gwastraff cartrefi sydd wedi'u casglu a'u gosod ar wahân i wastraff trefol a'u prosesu wedyn i gynhyrchu cynhyrchion y gellir eu marchnata. Mae ailgylchu yn wahanol i aildefnyddio cynhyrchion oherwydd yr angen i brosesu'r deunydd sydd wedi'i adfer.

Ystyr "gwastraff cartrefi" yw'r holl wastraff a gesglir gan yr awdurdodau lleol o dan adran 45(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), ynghyd â'r holl wastraff sy'n codi o Safleoedd Amwynder Dinesig a'r gwastraff a gesglir gan drydydd partïon y telir credydau ailgylchu casglu neu gredydau ailgylchu gwaredu amdanynt o dan adran 52 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Ystyr "Safle Amwynder Dinesig" yw mannau a ddarperir gan yr awdurdodau lleol lle gall personau sy'n byw yn yr ardal roi eu gwastraff cartrefi (gwasanaethau a ddarperir o dan adran 51(1)b o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).

I osgoi amheuaeth, bydd yr holl wastraff a gesglir gan yr awdurdodau yn cynnwys gwastraff sy'n codi yn sgil:

- rowndiau casglu gwastraff (gan gynnwys rowndiau ar wahân ar gyfer casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu)
- glanhau strydoedd a chasglu sbwriel
- glanhau traethau
- casglu gwastraff swmpus
- casglu gwastraff cartrefi peryglus

- casglu gwastraff clinigol cartrefi

- casglu gwastraff gardd

- systemau gollwng/dod ag ef

- clirio gwastraff wedi'i ollwng heb ganiatâd

- gwasanaethau sgip ar y penwythnos

- unrhyw wastraff cartrefi arall a gesglir gan yr awdurdod

Cyfanswm y gwastraff cartrefi
sy'n codi mewn tunelli - Y
ganran sydd wedi'i gompostio
Ystyr "wedi'i gompostio" yw deunydd gwastraff organig sydd wedi'i
ddadelfennu gan weithrediadau micro-organeddau yn aerobig mewn
cyfleuster compostio canolog. Ni chynhwysir compostio gartref.

Gweler y diffiniad llawn yn Atodlen 5 Dangosydd BVPI 82a ar gyfer
cyfanswm y gwastraff cartrefi sy'n codi.

Ystyr "a ddefnyddir i adfer gwres, per a ffynonellau ynni eraill" yw

BVPI 82c
Cyfanswm y gwastraff trefol
sy'n codi mewn tunelli – Y
ganran a ddefnyddir i adfer
gwres, per a ffynonellau ynni
eraill

- hylosgi gwastraff o dan reolaeth mewn peiriant arbenigol yn unswydd i greu
per a/neu wres o'r deunydd gwastraff sy'n bwydo'r peiriant

- hylosgi o dan reolaeth tanwydd sy'n deillio o sbwriel mewn peiriant
arbenigol yn unswydd i gynhyrchu per a/heu wres o'r deunydd gwastraff sy'n
bwydo'r peiriant

- cynhyrchu tanwyddau nwyol drwy adweithio gwastraff carbonaidd poeth ag
aer, stêm neu ocsigen (nwyeiddio)

- dadelfennu gwastraff organig yn thermol i gynhyrchu cynhyrchion nwyaid,
hylifol a soled drwy pyrolysis

- dadelfennu gwastraffoedd organig yn fiolegol drwy dreuliad anaerobic.

Ni chynhwysir y canlynol

- gweddillion lludw sydd wedi'u tirlenwi neu eu hailgylchu wedyn

- methan a adferwyd o dirlenwi

- deunyddiau a adferwyd i'w hailgylchu ar ôl llosgi gwastraff

Gweler y diffiniad llawn yn Atodlen 5 Dangosydd BVPI 82a ar gyfer
cyfanswm y gwastraff cartrefi sy'n codi – canran wedi'i ailgylchu
Ystyr "wedi'i dirlenwi" yw gwastraff a roddwyd ar wyneb y tir, neu mewn
strwythur a osodwyd ynddo; neu o dan wyneb y tir (mae tir yn cynnwys tir o
dan ddr, sydd uwchlaw'r marc distyll neu'r llanw mawr cyffredin).

BVPI 82d
Cyfanswm y gwastraff cartrefi
sy'n codi mewn tunelli - Y
ganran sydd wedi'i dirlenwi
Gweler y diffiniad llawn yn Atodlen 5 Dangosydd BVPI 82a ar gyfer
cyfanswm y gwastraff cartrefi sy'n codi.

Kg o wastraff cartrefi a gesglir I'w lenwi gan yr awdurdodau lleol.
am bob pen

BVPI 84

Gwastraff cartrefi: ystyr "gwastraff cartrefi" yw'r ystyr a roddir i "household waste" fel y'i ddiffinnir yn a.75 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43) ac Atodlenni 1 a 2 o Reoliadau Gwastraff Rheoledig 1992 (O.S. 1992/588).

Cyfrifer fel,

X.ac.

Y

X = Cyfanswm y gwastraff cartrefi sy'n codi ac a gasglwyd gan yr awdurdod o dan adran 45(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

plws

Cyfanswm y gwastraff cartrefi mewn tunelli yn codi o Safleoedd Amwynder Dinesig

plws

Gwastraffoedd sy'n codi y telir credydau ailgylchu casglu neu gredydau ailgylchu gwaredu i drydydd partïon amdanynt o dan adran 52(4) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Y = Y boblogaeth yn ardal yr awdurdod, gan ddefnyddio amcanestyniadau canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ystyr "Safle Amwynder Dinesig" yw mannau a ddarperir gan yr awdurdod lle gall personau sy'n byw yn yr ardal roi eu gwastraff cartrefi (Gwasanaethau a ddarperir o dan adran 51(1)b o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).

Cost net casglu sbwriel a glanhau strydoedd (fel y'u nodir ar Ffurflen Alldro Refeniw (RO) 6, Llinell 5 colofn 7 llai grant penodol y tu allan i'r Cyllid Allanol Agreedig (AEF) wedi'i rhannu â km² o unrhyw dir perthnasol. Diffinnir "tir perthnasol" yn adran 86 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43)

Cost net casglu gwastraff: cyfrifer fel

BVPI 85
Cost pob cilometr sgwar o gadw tir perthnasol y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano yn glir rhag sbwriel

Cost casglu gwastraff fesul cartref

RO6, Llinell 1, llai grantiau penodol y tu allan i'r Cyllid Allanol Agreedig (AEF) am y llinellau hynny wedi'i rhannu â nifer y cartrefi.

Nifer y cartrefi: Rhestr Newidiadau y Swyddfa Brisio, y tudalen o dan y teitl 'Statement of Numbers and Bands of All Properties Shown in the Valuation List for the Billing Authority Area', 'Grand Total Line'. Defnyddiwr y datganiad diwethaf sydd ar gael.

BVPI 86

Cost gwaredu gwastraff trefol Cost net rheoli gwastraff: cyfrifer fel:
fesul tunnell fetrig

BVPI 87

Gwariant uniongyrchol fel RO6, Llinell 2, Col. 7 llai grantiau penodol y tu allan i'r Cyllid Allanol Agreedig, llai cost net rheoli hen safleoedd tirlenwi, wedi'i rhannu â chyfanswm tunelli metrig gwastraff trefol yr ymdriniwyd ag ef o dan y gwariant hwnnw.

Ystyr 'cost net rheoli hen safleoedd tirlenwi' yw unrhyw gostau, (gan gynnwys staff, gwasanaethau cynnal canolog, taliadau refeniu a chyfalaf) sy'n gysylltiedig â rheoli, monitro a rheoli llygredd hen safleoedd tirlenwi a weithredid gan yr awdurdod o'r blaen.

Nifer y casgliadau a gollwyd am bob 100,000 o gasgliadau gwastraff cartrefi

Ystyr "casgliad a gollwyd" yw
- unrhyw gasgliad a hysbyswyd gan breswylydd/corff masnachol lle na chafodd y preswylydd ei hysbysu yn ysgrifenedig bod y trefniadau wedi'u newid

- unrhyw gasgliad y mae'r awdurdod yn gwybod na chafodd ei wneud ar y diwrnod rhagnodedig am fod yr awdurdod neu ei gontractiwr wedi methu, gan gynnwys y rhai a gollwyd oherwydd y tywydd neu weithredu diwydianol

- unrhyw gasgliad na chafodd ei wneud ar y diwrnod rhagnodedig lle na chafodd y preswylwyr eu hysbysu yn ysgrifenedig bod y trefniadau wedi'u newid

Ystyr "diwrnod rhagnodedig" yw'r diwrnod o'r wythnos pan gâi'r sbwriel ei gasglu fel rheol.

Ystyr "hysbysu yn ysgrifenedig" yw drwy gyfrwng sachau sbwriel wedi'u hargraffu, taflenni, papurau newydd neu unrhyw gyfrwng ysgrifenedig arall a roddir i bob cartref/busnes perthnasol gan yr awdurdod neu ei gontractiwr.

Cyfrifer fel X x 100,000:

YxZ

ac X = Nifer y casgliadau a gollwyd (gan gynnwys casgliadau deunyddiau y gellir eu hailgylchu ar wahân)

Y = Nifer yr eiddo fel y'u rhestrir yn Rhestr Newidiadau y Swyddfa Brisio, y tudalen o dan y teitl 'Statement of Numbers and Bands of All Properties Shown in the Valuation List for the Billing Authority Area', 'Grand Total Line'. Defnyddiwr y datganiad diwethaf sydd ar gael.

Canran y bobl sy'n fodlon ar y safonau glanweithdra

Z = Nifer yr amserau penodedig ar gyfer casglu biniau yn y cyfnod Arolwg boddhad ynghylch a yw'r preswylwyr o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi cyflawni ei ddyletswydd i gadw'r tir yn rhydd rhag sbwriel.

BVPI 89

Ystyr "tir perthnasol" yw'r ystyr a roddir i "relevant land" yn adran 86 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43)

| | | |
|---------|---|---|
| BVPI 90 | Canran y bobl sy'n mynegi boddhad ag a) Cyfleusterau Ailgylchu, b) Casgliadau Gwastraff Cartrefi ac c) Safleoedd Amwynder Dinesig | <p>Y ganran yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y canlynol:</p> <p>a) Y gwasanaeth casglu sbwriel yn gyffredinol</p> <p>b) Y ddarpariaeth cyfleusterau ailgylchu yn gyffredinol</p> <p>c. Y gwasanaeth safleoedd amwynder dinesig yn gyffredinol</p> <p>I'w lenwi gan yr awdurdodau lleol.</p> <p>Ystyr 'Safle Amwynder Dinesig' yw mannau a ddarperir gan yr awdurdod lle gall personau sy'n preswylio yn yr ardal roi eu gwastraff cartrefi (Gwasanaethau a ddarperir o dan adran 51(1)b o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).</p> <p>Ystyr 'poblogaeth' yw'r boblogaeth yn ardal yr awdurdod.</p> |
| BVPI 91 | <p>Y ganran o'r boblogaeth a wasanaethir gan gasgliad wrth ymyl y ffordd o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu neu sydd o fewn 1 cilometr o ganolfan ailgylchu</p> | <p>Ystyr '1 cilometr' yw radiws o 1km (fel yr hed y frân).</p> <p>Ystyr 'canolfan ailgylchu' yw</p> <ul style="list-style-type: none"> • banciau gollwng / dod ag ef mewn un man lle gall un neu fwy o ddeunyddiau gael eu rhoi • mannau a ddarperir gan yr awdurdod lle gall personau sy'n preswylio yn yr ardal roi eu gwastraff cartrefi (Gwasanaethau a ddarperir o dan adran 51(1)b o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) lle darperir banciau dod ag ef. • unrhyw gyfleuster adfer deunyddiau (MRF) a ddarperir gan yr awdurdod, lle gall aelodau'r cyhoedd roi eu gwastraff ailgylchadwy. |

Erthygl 3

ATODLEN 6

DANGOSYDDION TRAFNIDIAETH

| | Rhif y dangosydd | Disgrifiad y dangosydd | Manylion y dangosydd |
|---------|------------------|---|---|
| BVPI 93 | | Cost cynnal priffyrrd am bob 100 km a deithir gan gerbyd ar y prif ffyrdd | Y ffigur ym mlwch memorandwm M2 ar y ffurflen Alldro Cyfalaf ddiweddaraf COR1 plws llinell 2 (cynnal strwythurol) a 4 (cynnal rhigolaidd) ar y ffurflen Alldro Refeniw RO2 ddiweddaraf colofn 7; wedi'i rannu â'r ffigur am gilometrau cerbydau sy'n deillio o Dabl A yn setliad diweddaraf y Grant Cynnal Refeniw; wedi'i luosi â 100. |
| BVPI 94 | | Cost gwasanaethau bysiau â chymhorthdal am bob siwrnai a wneir gan deithiwr | Y gwariant net (llinell 11 ffurflen RO2) ar gymhorthdal gwasanaethau bysiau lleol, fel y'i diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985, yn y flwyddyn berthnasol, wedi'i rannu â nifer y siwrneiau gan deithwyr ar y gwasanaethau hynny yn y flwyddyn honno. Ni ddylai hyn gynnwys gwariant ar gynlluniau tocynnau gostyngedig o dan adrannau 93 i 105 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Y ffigur yn llinell 6, colofn 7, o'r ffurflen Alldro Refeniw RO2 ddiweddaraf, wedi'i rannu â nifer y goleuadau stryd yn yr awdurdod. |
| BVPI 95 | | Cost gyfartalog cynnal goleuadau stryd | |

Naill ai:

Arolwg gweledol o hyd yr holl brif ffyrdd yn y flwyddyn gan ddefnyddio Arolwg Archwilio Gweledol Bras (arolwg sy'n cofnodi diffygion ffyrdd a nodir drwy eu gweld). Cynhelir yr arolwg o dan Reolau a Pharamedrau System Rheoli Pafinau'r Deyrnas Unedig (UKPMS), fersiwn 2.0. Bydd yr arolwg yn cynnwys y rhwydwaith cyfan heblaw'r rhan a enwebir ar gyfer "archwiliad tybiedig" - rhaid cyfyngu honno i 30% o rwydwaith prif ffyrdd yr awdurdod. Gofynnir i'r awdurdodau lleol ddynodi'r ganran o'r rhwydwaith sydd â sgôr diffygion UKPMS o 70 neu'n uwch.

Neu:

Y ganran o'r rhwydwaith ag oes weddilliol negyddol, yn deillio o arolygon deflectograff (arolygon mecanyddol yn defnyddio offer sy'n asesu cyflwr strwythurol y ffordd drwy fesur faint y mae'n gwyo o dan lwyth).

Mae'r manylion fel a ganlyn; gan gyfeirio at ddangosydd perfformiad 1999. Ar gyfer 2000 a'r blynnyddoedd wedyn, byddai'r dyddiadau yn treiglo ymlaen fel y bo'n briodol.

Dangosydd: Y ganran o'r rhwydwaith prif ffyrdd cymwys ar

1 Gorffennaf 1998 ag iddo oes weddilliol negyddol. Cyfrifir hyn fel

$$((1-a) \times p) + (a \times 0)$$

ac $a = y$ ganran o'r rhwydwaith cymwys ag archwiliad tybiedig (gweler isod)

$p = y$ ganran o'r rhwydwaith a arolygwyd ac iddo oes weddilliol negyddol ar 1 Gorffennaf 1998.

Nodiadau:

1. Wrth gyfrifo p bydd yr awdurdodau'n estyn y gwyriadau a gofnodwyd mewn arolygon (categori 2 neu'n uwch)* a gynhaliwyd o 1993 i 1997 ymlaen i 1 Gorffennaf 1998, ac eithrio'r adrannau hynny lle cafwyd gwaith cynnal ar ôl yr arolwg gwyriadau (ar yr amod bod y gwaith cynnal wedi'i ddechrau cyn 1 Gorffennaf 1998). Os yw'n dymuno, gall yr awdurdod lleol gynnwys data arolwg a gasglwyd ym 1998 neu 1999 yn y cyfrifiad heb ei estyn ymlaen a heb unrhyw lwfans am waith cynnal dilynol.

*Yn unol â'r diffiniad yn Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd yr Asiantaeth Briffyrrdd.

2. Wrth gyfrifo p rhaid i'r awdurdod ddefnyddio

(i) canlyniadau oes weddilliol (gan gynnwys oes weddilliol ar gyfer darnau sydd wedi'u cynnal) am o leiaf b% o hyd y prif ffyrdd cymwys (mewn un cyfeiriad) o arolygon deflectograff a gynhaliwyd rhwng 1993 a 1999; a b = 60% - (a/2) ac a yw canran y rhwydwaith cymwys ag archwiliad tybiedig. Mae hyn yn golygu y bydd gan awdurdod â'r archwiliad tybiedig uchaf o 30% (gweler isod) ganlyniadau oes weddilliol ar gyfer 45% o'i rwydwaith cymwys.

(ii) rhaid i'r awdurdod ddefnyddio canlyniadau oes weddilliol am o leiaf 20% o

hyd prif ffyrdd cymwys yr awdurdod (mewn un cyfeiriad) yn deillio o arolygon ym 1997 neu wedyn.

(iii) meddalwedd Pandef neu feddalwedd cyfatebol a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Briffyrrdd.

(iv) darnau 100 metr a'r oes weddilliol ar gyfer pob darn wedi'i ddiffinio fel yr 85ed oes weddilliol ganraddol ar ôl cywiro'r tymheredd i 20°C.

3. Archwiliad tybiedig: Gall awdurdod lleol enwebu hyd at 30% o'i rwydwaith cymwys ar gyfer "archwiliad tybiedig". Darnau o'r rhwydwaith yw'r rhain y mae'n hysbys ar sail arolygon cynharach neu wybodaeth leol eu bod yn strwythurol gadarn (bydd hyn fel arfer yn awgrymu oes weddilliol o 10 mlynedd o leiaf) a lle byddai'n wastraffus cynnal arolwg deflectograff ar hyn o bryd. Cymerir darnau o'r ffordd sydd ag archwiliad tybiedig i ystyriaeth wrth gyfrifo'r dangosydd perfformiad (gweler uchod) a byddant hefyd yn effeithio ar yr archwiliad lleiaf (gweler Nodyn 2(i) uchod). Dylai'r awdurdodau lleol sy'n dymuno enwebu rhannau o'u rhwydwaith cymwys ar gyfer archwiliad tybiedig bennu'r darnau sydd wedi'u henwebu ganddynt a rhoi sail yr enwebiad (arolwg blaenorol, gwaith cynnal diweddar, etc.).

4. Rhwydwaith cymwys: Prif ffyrdd hyblyg sy'n addas ar gyfer dadansoddiad deflectograff, h.y. nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddarnau wedi'u codi a phrif ffyrdd hyblyg sy'n bodloni meini prawf yr Asiantaeth Briffyrrdd ar gyfer ffyrdd hir oes. Dylai'r awdurdodau lleol ddatgan pa ganran o'u rhwydwaith prif ffyrdd sy'n gymwys yn eu barn hwy.

Fel ar gyfer prif ffyrdd (Dangosydd 4 uchod), arolwg o'r rhwydwaith o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd i'w gynnal drwy gyfrwng archwiliad gweledol bras (CVI) o dan Reolau a Pharamedrau'r System Rheoli Pafinau, fersiwn 2.0. Y bwriad yw bod arolygon CVI yn cael eu cynnal dros y rhwydwaith cyfan, ond nid oes angen i'r awdurdodau arolygu rhan o'u rhwydwaith (y gwyddant ei bod mewn cyflwr da) a enwebir ganddynt ar gyfer "archwiliad tybiedig". Rhaid i'r rhan o'r rhwydwaith a enwebir ar gyfer "archwiliad tybiedig" beidio â bod yn fwy na 30% o rwydwaith yr awdurdod o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd. Cynhwysir y rhan ag "archwiliad tybiedig" yng nghyfanswm hyd y rhwydwaith at ddibenion cyfrifo'r dangosydd.

Y ganran o lampau stryd nad ydynt yn gweithio yn unol â'r cynllun. Cyfrifir hyn fel:

$$\{(W * Y)/Z\} * 100$$

ac W yw cyfanswm y methiannau goleuadau stryd a welwyd yn y flwyddyn drwy archwiliadau rheolaidd a dulliau eraill wedi'u rhannu â 365;

Y yw'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i drwsio'r golau stryd ar ôl ei weld plws hanner yr amser ar gyfartaledd rhwng yr archwiliadau; a

Z yw cyfanswm y goleuadau stryd yn yr awdurdod.

Archwiliadau gan yr awdurdod neu ei asiantaethau o leiaf 4 gwaith y flwyddyn yw 'archwiliadau rheolaidd'. Os yw'r awdurdod yn archwilio ei oleuadau yn fwy aml neu'n llai aml, dylai weithio'r ganran ar gyfer pob amledd drwy ddefnyddio'r fformwla uchod ac wedyn cyfuno'r canrannau yn un cyfartaledd wedi'i bwysoli.

BVPI 97

Cyflwr ffyrdd heblaw'r prif ffyrdd

Y ganran o lampau stryd nad ydynt yn gweithio yn unol â'r cynllun

BVPI 98

$$\{(W * Y)/Z\} * 100$$

ac W yw cyfanswm y methiannau goleuadau stryd a welwyd yn y flwyddyn drwy archwiliadau rheolaidd a dulliau eraill wedi'u rhannu â 365;

Y yw'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i drwsio'r golau stryd ar ôl ei weld plws hanner yr amser ar gyfartaledd rhwng yr archwiliadau; a

Z yw cyfanswm y goleuadau stryd yn yr awdurdod.

Archwiliadau gan yr awdurdod neu ei asiantaethau o leiaf 4 gwaith y flwyddyn yw 'archwiliadau rheolaidd'. Os yw'r awdurdod yn archwilio ei oleuadau yn fwy aml neu'n llai aml, dylai weithio'r ganran ar gyfer pob amledd drwy ddefnyddio'r fformwla uchod ac wedyn cyfuno'r canrannau yn un cyfartaledd wedi'i bwysoli.

Diogelwch ffyrdd

BVPI 99

Nifer yr anafusion mewn damweiniau ffyrdd am bob 100,000 o boblogaeth, wedi'i ddadansoddi yn ôl (i) natur yr anafusion a (ii) y math o ddefnyddiwr ffordd.

Categorïau'r anafusion: a) wedi'u lladd/wedi'u hanafu'n ddifrifol; b) mân anafiadau.

Mathau o ddefnyddiwr ffordd: a) cerddwyr; b) beicwyr; c) defnyddwyr cerbyd modur dwy-olwyn; d) defnyddwyr ceir, ac e) defnyddwyr cerbydau eraill.

Bydd y data'n cyfeirio at y flwyddyn galendr yn diweddu 15 mis cyn y 31 Mawrth perthnasol.

Cyfanswm y dyddiau yr oedd rheolaeth traffig dros dro (â llaw neu drwy gyfrwng goleuadau traffig) ar waith ar ffyrdd sy'n sensitif o safbwyt traffig neu pan oedd y ffordd ar gau, oherwydd gwaith ar ffyrdd yr awdurdodau lleol am bob km o ffyrdd sy'n sensitif o safbwyt traffig. (Peidiwch â chynnwys rheolaeth draffig wrth waith ffyrdd a gwblhawyd mewn llai na diwrnod).

Mae "sensitif o safbwyt traffig" yn golygu "traffic sensitive" fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad 13 o *Reoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau)* 1992 (O.S. 1992 / 2985).

Cyfanswm y pellter blynnyddol y bu'r holl fysiau lleol yn gweithredu yn ardal yr awdurdod

Cyfanswm y siwrneiau teithwyr a wnaed bob blwyddyn ar yr holl fysiau lleol o fewn ardal yr awdurdod.

Y ganran yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y cyfan ar y ddarpariaeth gwybodaeth am gludiant cyhoeddus. I'w gynnal drwy gyfrwng arolwg o fodhad defnyddwyr.

Canran o ddefnyddwyr a oedd yn fodlon ar y ddarpariaeth leol o ran gwybodaeth am gludiant gyhoeddus

Y ganran yn dweud eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y cyfan ar y gwasanaeth bysiau lleol. I'w gynnal drwy gyfrwng arolwg o fodhad defnyddwyr.

Difrod i ffyrdd a phafinau

Cyfanswm y digwyddiadau a hysbyswyd o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau ac a drwsiwyd neu a wnaed yn ddiogel o fewn 24 awr o'r adeg y daeth yr awdurdod i wybod am y difrod gyntaf, fel canran o'r digwyddiadau hyn.

Erthygl 3

ATODLEN 7

DANGOSYDDION CYNLLUNIO

| | | |
|----------|--|--|
| BVPIW 10 | Y ganran o'r boblogaeth sy'n dod o dan gynllun datblygu a fabwysiadwyd (lle nad yw dyddiad diwedd y cynllun wedi dod i ben eto) | Y boblogaeth sy'n preswylio yn ardal/ardaloedd y cynllun lleol neu'r cynllun datblygu unedol fel canran o gyfanswm y boblogaeth breswyl (gan ddefnyddio Ffigur Amcangyfrif Canol Blwyddyn 1998). |
| BVPI 107 | Cost cynllunio am bob pen o'r boblogaeth | Cost gros cynllunio. Seilir y dangosydd hwn ar ddiffiniad o'r costau cynllunio craidd sy'n cael ei arbrofi ar hyn o bryd gan Gymdeithas y Swyddogion Cynllunio. |
| BVPI 108 | Nifer y gwyriadau o'r cynllun statudol a hysbyswyd ac a gymeradwywyd gan yr awdurdod fel canran o gyfanswm y caniatadau a roddwyd Canran o gyfanswm y ceisiadau a benderfynwyd o fewn 8 wythnos | Nifer y caniatadau a roddwyd lle hysbyswyd y cais o dan ddarpariaethau Erthygl 8(2)(b) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) fel canran o gyfanswm y penderfyniadau a wnaed. |
| BVPI 109 | | Fel yn Arolwg Chwarterol CCC ar Reoli Datblygu. Wrth bennu targedau lleol dylai'r awdurdodau lleol roi sylw i'r targed cenedlaethol o 80% o fewn 8 wythnos. |
| BVPI 110 | Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i benderfynu ar bob cais | Yr amser rhwng y cais i'r penderfyniad ar bob cais y penderfynir arno fel y'u cofnodir ar y Ffurflenni Ystadegau Cynllunio y Cynulliad Cenedlaethol, wedi'i rannu â chyfanswm y ceisiadau y penderfynwyd arnynt. |
| BVPIW 11 | Ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid (rhestr gyfeirio Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru) | Dylai'r awdurdodau lleol gyhoeddi targedau ar wahân ar gyfer ceisiadau gan ddeiliaid tai, ceisiadau mawr a cheisiadau mân. Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio'r Rhestr Gyfeirio Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n cael ei harbrofi ar hyn o bryd gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru. |
| | | Nifer y dangosyddion ansawdd a gyrhaeddwyd, wedi'i fynegi fel cymhareb o gyfanswm y dangosyddion ansawdd, e.e. cyfanswm = 10 a byddai awdurdod a fyddai'n cyrraedd 5 o'r dangosyddion yn sgorio 5/10. |
| | | Dyma'r dangosyddion ansawdd: |
| | | <ul style="list-style-type: none"> • cynlluniau hyfforddi a datblygu staff ar waith • gweithdrefn gwynion wedi'i mabwysiadu • mannau derbyn yn hygyrch i bobl anabl • siarter defnyddwyr/cynllun gwasanaethau yn manylu ar ymrwymiadau'r gwasanaeth • arolwg o sylwadau'r defnyddwyr yn ystod y tair blynedd diwethaf • cyhoeddi cynlluniau perfformiad yn rheolaidd, sef heb fod yn llai nag unwaith bob 12 mis • y gwariant ar hyfforddi'r staff yn gyfartal ag 1% o'r costau cyflog gros neu'n fwy • targedau wedi'u pennu ar gyfer ymateb i ohebiaeth • crynodeb o'r prif ddogfennau cyhoeddus ar gael mewn print bras a/neu braille • dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg (pan wneir cais) |

ATODLEN 8

DANGOSYDDION DIWYLLIANT

Rhif y dangosydd Disgrifiad y dangosydd

Manylion y dangosydd

| | | |
|----------|--|--|
| BVPI 113 | Nifer y disgyblion yn ymweld ag amgueddfeydd ac orielau mewn grwpiau wedi'u trefnu gan ysgolion | Dim ond amgueddfeydd/orielau sy'n bodloni diffiniad Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) (The Museums Association Code of Ethics - 3ydd Argraffiad 1999) a ddylai gael eu cyfrif a lle bo'r amgueddfa yn cael ei rhedeg gan yr awdurdod, neu fod yr awdurdod yn cyfrannu o leiaf 20% o'r costau rhedeg, yn net o daliadau, neu'n darparu'r adeilad. |
| BVPIW 12 | A oes gan yr awdurdod lleol strategaeth ar gyfer y celfyddydau? | Diffiniad yr MA: "Museums enable people to explore collections for inspiration, learning and enjoyment. They are institutions that collect, safeguard and make accessible artefacts and specimens which they hold in trust for." |
